Tynnu'n ôl ar 20 Hydref 2020 gan ei fod dros 2 oed.




# Newyddion

Newyddion y CE 50 - Medi 2015

## Cynnwys


- Rheoli anawsterau ariannol ac ansolfedd
- Ydych chi wedi darllen 'Yr ymddiriedolwr hanfodol' eto?
- Ydy'ch manylion cyswllt yn gywir?
- Ymchwil newydd ar ffydd a hyder yn y Comisiwn Elusennau
- Adroddiad blynyddol a chynllun strategol
- Codi arian: ymgynghoriad CC20
- Ydy'ch elusen yn berchen ar eiddo neu'n rhentu eiddo?
- Digwyddiad twyll elusennau: 30 Hydref 2015
- Gwersi i'r sector ehangach o'n gwaith achos
- Rhybuddion rheoleiddio: cyllido sefydliadau anelusennol
- Rhoi'n fwy diogel
- Gall cynghorwyr proffesiynol ffeilio eich cyfrifon i chi
- Trysoryddion anrhydeddus: y newidiadau sy'n effeithio ar y SORP o 2016
- Ydych chi'n meddwl am ddyfodol eich elusen?
- Ffurflen datganiad ymddiriedolwyr ddiwygiedig wedi'i chyhoeddi
- Dyddiad i'ch dyddiadur: Wythnos Ymddiriedolwyr 2015


## Rheoli anawsterau ariannol ac ansolfedd

Disgwylir i ymddiriedolwyr wybod a deall sefyllfa ariannol eu helusen er mwyn iddi allu parhau i weithredu'n effeithiol. Mae'r comisiwn wedi cynhyrchu canllaw sy'n esbonio elfennau allweddol rheolaeth ariannol effeithiol a manylion am rôl yr ymddiriedolwyr; mae hefyd yn esbonio'r rhwymedigaethau posibl y gallai ymddiriedolwyr eu cael, ac mae'n amlinellu rôl y comisiwn os yw elusennau'n wynebu ansolfedd neu'n dirwyn i ben.

## Ydych chi wedi darllen 'Yr ymddiriedolwr hanfodol' eto?

Yr ymddiriedolwr hanfodol yw'r canllaw allweddol i bob ymddiriedolwr elusen yng Nghymru a Lloegr. Mae'n esbonio beth rydym yn ei ddisgwyl gan ymddiriedolwyr ac mae'n amlinellu eu cyfrifoldebau.

Mae nifer o'r problemau rydym yn delio â hwy o ddydd i ddydd wedi'u hachosi gan ymddiriedolwyr sydd heb ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau; bydd dilyn arfer da yn helpu ymddiriedolwyr i redeg eu helusen yn effeithiol, osgoi anawsterau a chydymffurfio â'u dyletswyddau cyfreithiol.

Mae'r fersiwn newydd hwn yn ceisio ei gwneud hi'n haws i ymddiriedolwyr ddeall eu dyletswyddau cyfreithiol ac osgoi nifer o'r camgymeriadau sylfaenol sydd yn aml yn arwain at broblemau difrifol. Mae'r canllaw yn gliriach, yn fyrrach, yn cynnwys cysylltiadau i ganllawiau eraill, ac yn nodi'r gwersi a ddysgwyd o'n gwaith. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb sydyn ac yn esbonio rôl yr ymddiriedolwr fel 6 phrif ddyletswydd:

- sicrhau bod eich elusen yn cyflawni ei dibenion er budd cyhoeddus
- cydymffurfio â dogfen lywodraethol eich elusen a'r gyfraith
- gweithredu er lles gorau eich elusen
- rheoli adnoddau eich elusen mewn modd cyfrifol
- gweithredu gyda gofal a sgil rhesymol
- sicrhau bod eich elusen yn atebol

## Ydy'ch manylion cyswllt yn gywir?

Mae'n bwysig sicrhau bod manylion enw cyswllt eich elusen yn gywir, yn enwedig cyfeiriadau e-bost. Mae'n rhaid i chi roi cyfeiriad i ni sy'n cael ei wirio'n gyson er mwyn i ni allu cysylltu â chi'n gyflym ac yn hawdd. Mewngofnodwch ar ein porthol ar-lein i wirio bod yr wybodaeth gywir gennym ar gyfer eich elusen.

Tynnu'n ôl ar 20 Hydref 2020 gan ei fod dros 2 oed.

## Ymchwil newydd ar ffydd a hyder yn y Comisiwn Elusennau

Ers 2005, mae'r comisiwn wedi bod yn mesur lefelau ffydd a hyder cyhoeddus mewn elusennau, ond hyd yn hyn dydyn ni byth wedi gwneud ymchwil ar ganfyddiadau cyhoeddus ohonom fel rheoleiddiwr.

Yn gynharach eleni comisiynwyd cwmni ymchwil annibynnol, Populus, i werthuso effeithiolrwydd ac effaith ein gwaith ac archwilio'r agweddau a'r canfyddiadau sy'n llywio barn pobl am y comisiwn a rheoleiddio elusennau.

Pan ofynnwyd i ni raddio ffydd a hyder yn y comisiwn, roedd y cyhoedd wedi rhoi sgôr gyfartalog o 6.0 allan o 10 i ni (ddim yn bell ar ôl y lefel 6.7 o ffydd gyhoeddus mewn elusennau), ac roedd elusennau wedi rhoi sgôr hyd yn oed yn uwch i ni o 8.3.

Mae'r ymchwil hefyd yn dangos po fwyaf y mae pobl yn ei wybod am ein gwaith, y mwyaf y maent yn ymddiried ynom, sy'n dangos ein bod yn gallu cynyddu'r sgôr hon drwy godi mwy o ymwybyddiaeth o'r hyn rydym yn ei wneud, a thrwy ymgysylltu'n ehangach. Fel ymddiriedolwr, byddem yn eich annog chi i roi datganiad clir ar wefan eich elusen i ddweud ei bod wedi'i reoleiddio gan y comisiwn, a chynnwys dolen i GOV.UK.

Mae'r adroddiad llawn hefyd yn dangos bod cefnogaeth gryf ymysg y cyhoedd ac elusennau dros roi pwerau newydd i'r comisiwn; mae hwn yn arwydd o ffydd yn y Bil Elusennau (Diogelu a Buddsoddiad Cymdeithasol), a fydd yn parhau ar ei daith trwy'r Senedd ar ôl gwyliau'r haf.

## Adroddiad blynyddol a chynllun strategol

Cafodd ein hadroddiad blynyddol a chynllun strategol eu cyhoeddi ar ddiwedd Mehefin. Mae'r cynllun strategol yn amlinellu ein 4 prif flaenoriaeth ar gyfer 2015-18, sy'n cynnwys diogelu elusennau rhag cael eu camddefnyddio neu eu camreoli, a chynnig modd i ymddiriedolwyr redeg eu helusennau'n effeithiol. Mae'r adroddiad blynyddol yn dangos beth rydym wedi'i wneud yn 2014-15 i wella ein hymagwedd at fonitro elusennau. Mae'n cynnwys ffigurau sy'n dangos i ba raddau ein bod wedi llwyddo i ddiogelu cronfeydd elusennau.

### Codi arian: ymgynghoriad CC20

O dro i dro rydym yn adolygu ac yn diwygio ein canllawiau i sicrhau eu bod nhw'n parhau i fod yn berthnasol ac yn gywir. Ym mis Hydref, byddwn yn cynnal ymgynghoriad ar ein canllaw sy'n gysylltiedig ag elusennau a chodi arian (CC20). Mae'r canllaw yn amlinellu beth mae'n rhaid i elusennau a'u hymddiriedolwyr ei ystyried wrth godi arian gan y cyhoedd. Yn nes ymlaen yn y flwyddyn byddwn yn cynghori sut y gallwch chi gyfrannu at y broses ymgynghori.

## Ydy'ch elusen yn berchen ar eiddo neu'n rhentu eiddo?

Gall y rhan fwyaf o elusennau yng Nghymru a Lloegr brynu neu werthu tir y maent yn berchen arno heb fod angen iddynt gael ein cymeradwyaeth ni, ar yr amod:

- ei fod lles gorau'r elusen
- mae'r ymddiriedolwyr yn ceisio cael y fargen orau i'w helusen
- mae'r ymddiriedolwyr yn dilyn y gofynion a nodir yn ein canllaw tir ac eiddo elusennau

Fodd bynnag, mae'r broses yn fwy cymhleth fel arfer pan fydd angen cymeradwyaeth y comisiwn - er enghraifft, os ydych chi'n gwerthu tir i rywun sy'n gysylltiedig â'ch elusen.

Dyna pryd y mae'r Ethical Property Foundation o gymorth. Os ydych chi'n elusen, gallwch chi gofrestru am ddim i gyrchu dros 125 o dudalennau o ganllawiau eiddo sy'n cael eu diweddaru'n gyson, rhestrau gwirio a thempledi. Ac os nad ydych chi'n gallu cael hyd i'r ateb y mae ei angen arnoch, gallwch chi gysylltu â'i gynghorwyr eiddo i gael cyngor pwrpasol, un-i-un ar faterion mwy cymhleth.

Tynnu'n ôl ar 20 Hydref 2020 gan ei fod dros 2 oed.

## Digwyddiad twyll elusennau: 30 Hydref 2015

Mae twyll yn fygythiad difrifol i bob sefydliad - ac nid yw elusennau yn eithriad. Gyda nifer yr achosion o dwyll a gofnodir ar gynnydd, mae'n hollbwysig i elusennau o bob lliw a llun adeiladu amddiffynfeydd i ddiogelu incwm ac asedau a bodloni eu dyletswyddau.

Rydym yn cynnal cynhadledd dwyll undydd gyda'r Panel Cynghori ar Dwyll (Fraud Advisory Panel) i roi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ymddiriedolwyr a rheolwyr i adnabod arwyddion twyll a llunio ymateb effeithiol.

Bydd y gynhadledd, a gefnogir gan amrywiaeth o gyrff sector, yn dwyn ynghyd ymarferwyr a ffigurau blaenllaw o'r byd elusennol ac atal twyll i drafod yr heriau y mae elusennau'n eu hwynebu, tynnu sylw at risgiau cyfredol a rhannu arfer orau. Mae'r siaradwyr a gadarnhawyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Prydeinig, Cifas, Help for Heroes, Institute of Business Ethics, Oxfam GB a Save the Children International.

I gadw lle ar-lein ewch i wefan Fraud Advisory Panel.

## Gwersi i'r sector ehangach o'n gwaith achos

Rydym yn cyhoeddi adroddiadau o'n gwaith achos ehangach ag elusennau yn gyson sy'n adlewyrchu'r gwersi y gall ymddiriedolwyr eraill eu dysgu o'r sefyllfaoedd y down ar eu traws. Mae'n ddisgyblaeth dda i ddarllen yr adroddiadau byr hyn a gofyn a 'allai'r broblem ddigwydd yn ein helusen ni?', neu 'oes angen caniatâd y comisiwn arnom i gymryd cam arbennig?'.

Nid yw pob un o'n hadroddiadau achos yn ymwneud ag achosion cydymffurfio, mae rhai yn dangos ble rydym wedi gweithio gydag elusen i'w galluogi i barhau â'i chenhadaeth.

Rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiadau hwy o'n holl ymchwiliadau ffurfiol, a elwir yn ymchwiliadau statudol i elusennau. Er enghraifft, rydym newydd gyhoeddi adroddiad o achos yn ymwneud â phryderon am gynnwys gwefan elusen.

## Rhybuddion rheoleiddio: cyllido sefydliadau anelusennol

Gall cyllido sefydliad anelusennol fod yn ffordd effeithiol o hyrwyddo dibenion eich elusen, ond mae'n rhaid i chi fod yn glir ynghylch yr hyn y mae'ch elusen yn gobeithio ei gyflawni drwy wneud hynny. Disgwyliwn i ymddiriedolwyr arfer diwydrwydd dyladwy i sicrhau bod cronfeydd yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau sy'n hyrwyddo dibenion eich elusen yn unig, a bod asedau ac enw da eich elusen wedi'u diogelu. Darllenwch ragor am yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gyllido amhriodol a hefyd rhai enghreifftiau o'r senarios a fyddai'n codi pryderon rheoleiddio.

## Rhoi'n fwy diogel

Cydnabyddwn fod rhai adegau o'r flwyddyn pan fydd y cyhoedd yn arbennig o hael wrth roi i elusennau, fel y Nadolig ac yn ystod apeliadau brys. Mae Ramadan yn un o'r adegau hynny hefyd. Yn ystod mis Mehefin a Gorffennaf, roedd y comisiwn wedi cynnal ymgyrch Rhoi'n fwy diogel i annog y cyhoedd i wneud gwiriadau arbennig cyn rhoi. Mae'n bwysig fel rhoddwr i ymgyfarwyddo â'r gwiriadau hyn ac, fel elusen, i sicrhau eich bod yn dilyn arfer gorau wrth godi arian a derbyn rhoddion. Mae dros 30,000 o bobl wedi gweld ein fideo sy'n esbonio pwysigrwydd gwirio bod elusennau wedi cofrestru.

### Gall cynghorwyr proffesiynol ffeilio eich cyfrifon i chi

Wyddoch chi y gall cynghorydd proffesiynol gael ei enwebu gan elusen i ffeilio cyfrifon yr elusen ar-lein, gan arbed tipyn o amser i'r gweithiwr proffesiynol, yr elusen a'r comisiwn.

Tynnu'n ôl ar 20 Hydref 2020 gan ei fod dros 2 oed.

## Trysoryddion anrhydeddus: y newidiadau sy'n effeithio ar y SORP o 2016

Nid yw elusennau sy'n paratoi cyfrifon derbyniadau a thaliadau (cyfrifon arian parod) wedi'u heffeithio o gwbl, ond mae'n rhaid i'r elusennau hynny sy'n paratoi eu cyfrifon drwy ddefnyddio'r SORP wybod am rai o'r newidiadau sydd o'u blaenau.

Ar gyfer blynyddoedd cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2016 cynigir ein bod yn dychwelyd i un SORP yn unig - SORP Elusennau (FRS 102). Bydd hyn yn symleiddio cyfrifon elusennau ac yn golygu na fydd rhaid i ymddiriedolwyr na'u cynghorwyr ddewis rhwng y ddau SORP fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd ar gyfer blynyddoedd cyfrifyddu sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2015. Hefyd cynigir bod gofynion adrodd ychwanegol ar gyfer elusennau mwy yn aros heb eu newid ar incwm gros o £500,000 neu ragor yn hytrach na chynyddu yn unol â'r trothwy archwilio. I ddysgu rhagor am y newidiadau hyn a dweud eich dweud, ewch i'r micro-safle SORP elusennau arbennig.

Mae'r newidiadau yn 2016 yn deillio o'r ffaith bod safonau cyfrifyddu'r DU y mae'r SORP yn seiliedig arnynt yn newid. Mae newidiadau i safonau cyfrifyddu yn golygu newidiadau i'r SORP, ond rydym yn gobeithio y bydd hyn yn cael ei ddilyn gan gyfnod o sefydlogrwydd.

### Ydych chi'n meddwl am ddyfodol eich elusen?

Mae rhwydwaith yr United Kingdom Community Foundation yn cynnig amryw o wasanaethau i helpu elusennau sy'n ei chael hi'n anodd i ddosbarthu arian, elusennau nad ydynt yn gallu cael hyd i ymddiriedolwyr neu mae angen cymorth arnynt i weinyddu eu cronfeydd elusennol.

## Ffurflen datganiad ymddiriedolwyr ddiwygiedig wedi'i chyhoeddi

Os ydych chi'n gwneud cais i gofrestru elusen newydd, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cwblhau'r fersiwn diweddaraf o'r ffurflen datganiad ymddiriedolwyr. Bydd oedi'n digwydd yn aml wrth brosesu ceisiadau pan fydd y ffurflen anghywir yn cael ei chyflwyno neu'n cael ei chwblhau'n anghywir.

Er mwyn anfon datganiad wedi'i gwblhau'n gywir atom dylai pob un o'r ymddiriedolwyr:

- ddarllen y canllawiau ar GOV.UK am gymhwysedd a chyfrifoldebau ymddiriedolwyr
- troi at ein canllaw ar fudd personol, os yw'n gymwys
- troi at ein canllaw ar ddiogelu os yw'r elusen yn gweithio gyda grwpiau agored i niwed

Sut i gwblhau'r ffurflen:

- gwnewch yn siŵr bod enw'r sefydliad yn gyflawn ac yn cyfateb â'r enw sydd i'w weld yn y ddogfen lywodraethol a'r ffurflen gais
- os ydych yn defnyddio mwy nag un ffurflen, rhaid i enw'r sefydliad fod ar bob ffurflen
- mae pob un o'r ymddiriedolwyr cymwys wedi llofnodi a dyddio'r ffurflen(ni)
- os yw'r sefydliad yn gweithio gyda grwpiau agored i niwed, gwnewch yn siŵr bod y blwch wedi'i dicio
- dylai'r blwch ymddiriedolwyr corfforaethol gael ei dicio os oes ymddiriedolwr corfforaethol gan y sefydliad
- gwnewch yn siŵr bod y datganiad yn cyfateb â'r wybodaeth a roddir yn y cais i gofrestru elusen

## Dyddiad i'ch dyddiadur: Wythnos Ymddiriedolwyr 2015

Mae'r Wythnos Ymddiriedolwyr yn ddigwyddiad blynyddol sy'n rhoi llwyfan i'r gwaith rhagorol y mae ymddiriedolwyr yn ei wneud ac i dynnu sylw at y cyfleoedd i bobl o bob cefndir i gymryd rhan a gwneud gwahaniaeth. Eleni mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal o 2-8 Tachwedd, a bydd Paula Sussex, ein Prif Swyddog Gweithredol, yn siarad yn y lansiad swyddogol ar 2 Tachwedd 2015. I wybod rhagor a gweld a oes digwyddiad yn cael ei gynnal yn eich ardal chi, ewch i wefan Wythnos Ymddiriedolwyr.

**Am gadw i fyny â'n newyddion, canllawiau a digwyddiadau? Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ein dilyn ni ar Twitter @ChtyCommission**